# Creu graffeg ar gyfer cynyrchiadau

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â chreu, cynnal ac addasu elfennau graffig, llunio dilyniannau graffig, a gwirio a chyflwyno dyluniadau graffig.

Mae'n ymwneud ag adnabod gofynion o fanylebau, deall cyfyngiadau'r broses dylunio sy'n gysylltiedig â dilyniannau graffig a datblygu elfennau graffig yn esthetig i fodloni gofynion technegol y cynhyrchiad gyda'r adnoddau sydd ar gael. Mae hefyd yn ymwneud ag ymgynghori gyda'r bobl briodol yn ystod gwahanol gamau; gan gynnwys trafod problemau posibl a thrin a thrafod datrysiadau amgen pan nad yw'r dilyniant gofynnol yn ymarferol o ystyried cyfyngiadau'r cynhyrchiad.

Yn olaf, mae'n ymwneud â'u cyfeirnodi a'u storio yn y dull priodol.  Sylwch: Gallai elfennau graffig gynnwys cefndiroedd, delweddau, logos a gwrthrychau.

Gelir defnyddio'r safon hon mewn sawl cyd-destun gan gynnwys drafftio syniadau a llunio byrddau stori.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. adnabod natur, arddull, cynnwys a diben creadigol yr elfennau graffig o'r fanyleb dylunio a'r wybodaeth ategol
2. adnabod gofynion a chyfyngiadau'r broses dylunio sy'n gysylltiedig â'r elfennau graffig
3. datblygu elfennau graffig yn esthetig er mwyn bodloni gofynion arddull y cynhyrchiad o fewn y cyfyngiadau penodol
4. sicrhau bod yr elfennau graffig yn cyd-fynd â gofynion technegol y cynhyrchiad
5. trin, dosbarthu a storio elfennau graffig i'w cynnal fel eu bod yn bodloni ansawdd y cynhyrchiad a'u cyfeirnodi fel bod modd manteisio arnyn nhw'n hawdd
6. dosbarthu gwaith sydd ar y gweill ac elfennau graffig terfynol gan gadw at y terfynau amser a'r cyllidebau y cytunwyd arnyn nhw
7. dewis a chyfuno elfennau graffig, delweddau a sain yn esthetig mewn ffordd sy'n gyson gyda gwerthoedd y cynhyrchiad a'r gofynion arddull penodol
8. sicrhau bod y dilyniannau graffig yn cyd-fynd gyda'r gofynion technegol ar gyfer y cynhyrchiad
9. awgrymu dewisiadau eraill pan nad yw'r dilyniant graffig gofynnol yn ymarferol o fewn yr holl baramedrau penodol
10. gwirio a chadarnhau bod y dyluniadau graffig yn bodloni gofynion y brîff dylunio gwreiddiol a'r addasiadau dilynol
11. rhoi cyfle i wneuthurwyr penderfyniadau ofyn cwestiynau a cheisio eglurder
12. cydnabod gwrthwynebiadau i ddyluniadau arfaethedig neu amrywiadau sydd wedi'u hawgrymu iddyn nhw
13. egluro'r goblygiadau ynghlwm â gwrthod neu newid datrysiadau dylunio

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. y manylebau dylunio a'r wybodaeth ategol megis natur, arddull, cynnwys a diben creadigol yr elfennau graffig 2. gofynion a chyfyngiadau'r broses dylunio sy'n gysylltiedig â'r elfennau graffig 3. y safonau a'r gofynion technegol a sut i sicrhau bod yr elfennau creadigol yn eu bodloni 4. sut i greu elfennau graffig i gyflawni'r effaith esthetig, a'r agweddau sy'n effeithio ar hyn 5. pwysigrwydd trin, storio a chyfeirnodi'n gywir 6. pwysigrwydd cymeradwyaeth a'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith sydd ar y gweill 7. pryd gallai fod angen gwiriadau, caniatâd a chymeradwyaeth a sut i'w caffael 8. yr agweddau sy'n dylanwadu ar ddewis a chyfuno delweddau, sain, elfennau graffig a dynameg y symudiad a pha effaith a gaiff y rhain ar y cyfansoddiad esthetig 9. galluoedd a chyfyngiadau'r cyfarpar a'r arbenigedd sydd ar gael 10. sut i gyflwyno a chaffael cytundeb ar ddatrysiadau dylunio graffeg

SKSPD9

Creu graffeg ar gyfer cynyrchiadau

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | ScreenSkills |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 30 Maw 2022 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 30 Maw 2026 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | ScreenSkills |
| **RCU gwreiddiol** | SKSPD9 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Cyfryngau a chyfathrebu, Gweithwyr Proffesiynol Cysylltiedig a Galwedigaethau Technegol, Celfyddydau, Cyfryngau a Chyhoeddi, Crefftau, y celfyddydau creadigol a dylunio, Gweithwyr Proffesiynol Cyswllt Dylunio; |
| **Cyfres/Set** | Dylunio Cynyrchiadau |
| **Geiriau Allweddol** | creu; graffig; elfennau; llunio; dilyniannau; dyluniadau; manylebau; technegol; cynhyrchiad; ymgynghori; trin a thrafod; cyfyngiadau; cefndiroedd; delweddau; logos; gwrthrychau; drafftio syniadau; llunio byrddau stori; |